Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gymunedol Croesgoch
# Ffordd Llanrhian
# Croesgoch
# Hwlffordd
# Sir Benfro
# SA62 5JT

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2012**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 21/08/2012**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gymunedol Croesgoch ym mhentref bach Croesgoch rhwng Tyddewi ac Abergwaun. Mae'r ysgol yn gwasanaethu dalgylch eang, a ymestynnwyd yn ddiweddar o ganlyniad i ad-drefnu ysgolion yn yr ardal.

Agorwyd yr ysgol ym 1966. Yn ystod 2010, cafwyd buddsoddiad sylweddol gan Lywodraeth Cymru a Chyngor Sir Penfro i ddatblygu adeilad yr ysgol a gwella'r amgylchedd addysgu a dysgu.

Mae 140 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed yn yr ysgol ar hyn o bryd, yn cynnwys 18 o ddisgyblion meithrin rhan-amser. Mae nifer sylweddol o ddisgyblion wedi ymuno â'r ysgol dros y ddwy flynedd ddiwethaf o ganlyniad i resymoli. Dechreuodd yr ysgol ddarpariaeth feithrin ran-amser yn Ionawr 2011. Mae gan yr ysgol bum dosbarth, ac mae tri o'r rhain yn ddosbarthiadau oedran cymysg.

Mae'r ysgol yn ystyried nad yw'r ardal y mae'n ei gwasanaethu naill ai'n arbennig o ffyniannus nac yn arbennig o ddifreintiedig ychwaith. Mae canran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim wedi cynyddu o 8% i 16% dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae gan ryw 26% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol, sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, ac mae gan un disgybl ddatganiad o anghenion addysgol arbennig.

Daw'r rhan fwyaf o ddisgyblion o gartrefi lle siaredir Saesneg fel y brif iaith, mae saith y cant o ddisgyblion o gartrefi Cymraeg ac mae Saesneg yn iaith ychwanegol i ddau y cant pellach o'r disgyblion. Saesneg yw prif gyfrwng yr addysgu a'r dysgu. Addysgir y Gymraeg fel ail iaith i'r rhan fwyaf o ddisgyblion, ond mae 15% ohonynt yn dilyn y cwricwlwm trwy gyfrwng y Gymraeg fel eu mamiaith.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gymunedol Croesgoch yn 2011-2012 yn golygu mai'r gyllideb yw £3,689 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn yr ysgolion cynradd yn Sir Benfro yw £5,323 a'r isafswm yw £3,000. Mae Ysgol Gymunedol Croesgoch yn y deunawfed safle o'r 61 o ysgolion cynradd yn Sir Benfro o ran ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd:

- bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol;
- bod ymddygiad ac agweddau bron pob un o'r disgyblion at ddysgu yn rhagorol;
- bod ethos cynhwysol yr ysgol a'r ansawdd uchel o ofal, cymorth ac arweiniad yn cael effaith gadarnhaol iawn ar safonau, hunan-barch a lles disgyblion;
- bod yr addysgu'n dda ar draws yr ysgol ar y cyfan;
- bod ansawdd uchel y cymorth y mae staff cymorth dysgu'n ei roi yn cyfrannu'n sylweddol at ansawdd dysgu'r disgyblion;
- bod athrawon yn darparu profiadau dysgu da ar gyfer disgyblion; a
- bod y partneriaethau gydag ystod o wasanaethau arbenigol wedi'u sefydlu'n dda ac yn rhoi cymorth da i ddisgyblion.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- bod y pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gref iawn ac yn rheoli'r ysgol yn effeithiol;
- bod gan bob aelod o staff weledigaeth ar y cyd ar gyfer dyfodol yr ysgol ac yn gweithio'n dda fel tîm;
- bod hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwella yn effeithiol;
- bod yr ysgol yn defnyddio gwybodaeth am gynnydd disgyblion yn effeithiol i olrhain a thargedu gwelliannau yng nghynnydd disgyblion; a
- bod llywodraethwyr yn wybodus am berfformiad cyffredinol disgyblion ac yn cefnogi'r ysgol yn dda.

## Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen i'r ysgol:

A1 wella canran y disgyblion sy'n cyflawni lefelau cyrhaeddiad uwch;

A2 gwella perfformiad bechgyn, yn enwedig mewn ysgrifennu;

A3 codi'r safonau a gyflawnir gan ddisgyblion mewn rhifedd;

A4 gwella cynllunio yng nghyfnod allweddol 2 i sicrhau datblygiad medrau ar draws holl feysydd y cwricwlwm; a

A5 datblygu asesu ar gyfer dysgu ymhellach i ddatblygu gallu disgyblion i wella eu gwaith eu hunain.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae llawer o ddisgyblion yn cyflawni'r lefelau disgwyliedig ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 a chyfnod allweddol 2. Nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn cyflawni cystal ag y gallent, yn enwedig ar y lefelau uwch na'r disgwyl.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyflawni safonau da mewn siarad a gwrando. Mae disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn gwrando'n dda, yn cymryd eu tro i siarad ac yn barod iawn i esbonio syniadau i'w ffrindiau. Yng nghyfnod allweddol 2, mae disgyblion yn creu dadleuon rhesymol ac yn cyfrannu'n dda i drafodaethau dosbarth.

Gall y rhan fwyaf o ddisgyblion yn y dosbarth derbyn adnabod seiniau cychwynnol, a gall y mwyafrif ohonynt ffurfio geiriau syml tair llythyren. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae llawer ohonynt yn darllen testunau addas yn dda. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn darllen yn dda ac mae ganddynt ystod o strategaethau i ddatrys geiriau anghyfarwydd. Gallant drafod eu hoff awduron a llyfrau, ac maent yn gwybod sut i ddefnyddio llyfrau a dod o hyd i wybodaeth. Mae sesiynau ymyrraeth grŵp mewn darllen wedi gwella safonau llawer o ddisgyblion, yn enwedig bechgyn. Mae mwyafrif o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn darllen ar lefel uwchlaw eu hoedran cronolegol.

Mae disgyblion yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu eu medrau ysgrifennu. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae mwyafrif y disgyblion yn sillafu geiriau syml yn gywir, ac yn defnyddio eu gwybodaeth ffonig i roi cynnig da ar eiriau newydd. Gall llawer ohonynt ysgrifennu darnau byr, ond nid ydynt yn ysgrifennu'n ddigon estynedig. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer o ddisgyblion yn cynhyrchu gwaith o safon dda at ystod eang o ddibenion. Mae medrau cynllunio disgyblion a'u gwybodaeth am batrymau sillafu wedi'u datblygu'n dda. Mae ansawdd cyflwyniad gwaith a llawysgrifen disgyblion yn dda ar y cyfan.

Ar draws yr ysgol, mae pob un o'r disgyblion yn siarad Cymraeg yn rheolaidd fel rhan o'u harferion dyddiol. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion sy'n astudio'r Gymraeg fel mamiaith yn cyflawni'n dda. Mae disgyblion sy'n astudio'r Gymraeg fel ail iaith yn defnyddio ystod o ymadroddion yn briodol ac yn ymateb yn dda i gwestiynau. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae safonau mewn Cymraeg fel ail iaith yn dda, gyda'r mwyafrif ohonynt yn dda iawn.

Yng nghyfnod allweddol 1, mae perfformiad disgyblion ar y lefel ddisgwyliedig (lefel 2) yn cyd-fynd â pherfformiad y teulu o ysgolion ar y cyfan. Mae perfformiad ar y lefel uwch na'r disgwyl (lefel 3) yng nghyfnod allweddol 1 yn amrywiol, gyda disgyblion yn perfformio'n well mewn Saesneg a gwyddoniaeth na mewn mathemateg.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae perfformiad disgyblion ar y lefel ddisgwyliedig (lefel 4) wedi bod yn debyg i'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion ar y cyfan. Mae

perfformiad disgyblion mewn Cymraeg fel mamiaith ac ail iaith ymhell uwchlaw cyfartaleddau cenedlaethol. Mae perfformiad ar y lefel uwch (lefel 5) yng nghyfnod allweddol 2 wedi cymharu'n dda â pherfformiad y teulu ym mhob un o'r tri phwnc craidd dros y tair blynedd diwethaf ar y cyfan, tan 2011 pan oedd islaw'r cyfartaledd. Mae disgyblion yn perfformio'n well mewn Saesneg, Cymraeg a gwyddoniaeth nag y maent mewn mathemateg.

Yng nghyfnodau allweddol 1 a 2, mae merched yn perfformio'n well ar y lefelau disgwyliedig na bechgyn ym mhob pwnc. Mae bechgyn yn perfformio'n well ar y lefelau uwch mewn mathemateg yng nghyfnod allweddol 1 ac mewn gwyddoniaeth yng nghyfnod allweddol 2.

Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cyflawni'n dda iawn yn unol â'u hoedran a'u gallu. Mae pob disgybl y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt yn cyflawni'n dda.

Mae disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn perfformio'n dda o gymharu â disgyblion tebyg yn y teulu, yr awdurdod lleol a Chymru.

**Lles: Da**

Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn deall pwysigrwydd bwyta a byw yn iach. Mae llawer o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau chwaraeon allgyrsiol.

Mae bron pob un o'r disgyblion wedi'u cymell yn dda, yn canolbwyntio'n dda mewn gwersi ac yn ymfalchïo yn eu gwaith. Mae ymddygiad bron pob disgybl yn eithriadol o dda. Mae disgyblion yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i ddatrys problemau ac mae eu gallu i wella eu dysgu eu hunain yn datblygu'n dda.

Mae'r cyngor ysgol wedi ennill ei blwyf yn dda, gwrandewir ar safbwyntiau disgyblion, a gweithredir yn unol â nhw. Mae'r cyngor ysgol yn rhagweithiol wrth ddatblygu nifer o brosiectau ac mae wedi cael effaith gadarnhaol ar wella polisïau a gweithdrefnau'r ysgol.

Yn aml, nid yw cyfraddau presenoldeb disgyblion wedi cymharu'n dda gyda chyfraddau presenoldeb ysgolion tebyg dros y blynyddoedd diwethaf. Mae'r ysgol wedi rhoi strategaethau effeithiol ar waith sydd wedi gwella presenoldeb eleni, sy'n agos at gyfartaledd y teulu ac uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu ystod dda o brofiadau dysgu difyr ar gyfer disgyblion, sy'n datblygu eu medrau a'u gwybodaeth yn effeithiol. Mae athrawon yn cynllunio'n dda ar gyfer datblygiad medrau yn y Cyfnod Sylfaen, ond yng nghyfnod allweddol 2 nid ydynt yn cynllunio'n ddigon trylwyr mewn rhai meysydd o'r cwricwlwm eto ar gyfer datblygu llythrennedd, rhifedd a medrau sy'n benodol i bwnc. Mae llawer o dasgau yn cynnig her briodol i ddisgyblion o wahanol alluoedd. Cynigir ystod dda o weithgareddau ac ymweliadau allgyrsiol i wella profiadau dysgu disgyblion.

Mae defnyddio'r gymuned leol i gyfoethogi profiadau dysgu disgyblion yn nodwedd ragorol yn yr ysgol. Mae llawer o arbenigwyr lleol, fel arlunwyr, haneswyr, aelodau o'r gymuned a busnesau lleol, yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd i ymgymryd â phrosiectau ysgogol amrywiol gyda'r disgyblion. Mae hyn wedi cael effeithiau cadarnhaol iawn ar safonau disgyblion mewn meysydd amrywiol, ac mae wedi golygu bod teuluoedd yn gweithio ac yn dysgu gyda'i gilydd hefyd. Dethlir eu deilliannau, a gellir gweld hyn o gwmpas yr ysgol. Mae'r rhain yn cynnwys prosiectau hanes lleol unigol disgyblion, sawl darn o gelf o ansawdd uchel, llyfr ryseitiau cyhoeddedig yr ysgol, a gardd lysiau'r ysgol.

Mae athrawon yn cynllunio'n dda ar gyfer datblygu medrau Cymraeg disgyblion ar draws yr ysgol. Caiff disgyblion lawer o gyfleoedd i ddysgu am eu hardal a'r Cwricwlwm Cymreig i godi eu hymwybyddiaeth am hanes a diwylliant Cymru.

Mae gan yr ysgol ddarpariaeth dda o ran addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang. O ganlyniad, mae gan lawer o ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o faterion amgylcheddol a byd-eang.

**Addysgu: Da**

Mae athrawon yn defnyddio amrywiaeth eang o strategaethau ac adnoddau i ennyn diddordeb disgyblion. Mae perthynas waith dda iawn rhwng athrawon, staff cymorth a disgyblion. Mae staff yn darparu modelau iaith da ar gyfer disgyblion, ac maent yn rheoli ymddygiad disgyblion yn dda ym mhob dosbarth. Mae rhediad da i'r rhan fwyaf o wersi. Mewn rhai achosion, nid yw athrawon yn herio disgyblion yn ddigonol, ac mae eu disgwyliadau o ddisgyblion yn rhy isel.

Mae gan yr ysgol systemau effeithlon ar gyfer olrhain a chofnodi cynnydd disgyblion. Mae staff yn dadansoddi data asesu yn effeithiol i nodi tueddiadau ac i dargedu cymorth ychwanegol ar gyfer disgyblion. Mae gweithdrefnau safoni effeithiol ar lefelau ysgol a chlwstwr sy'n cynorthwyo cywirdeb asesiadau athrawon.

Mae athrawon yn dechrau defnyddio strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn effeithiol. Maent yn rhannu deilliannau gwersi a meini prawf llwyddo gyda disgyblion, ond nid yw'r adborth llafar yn ystod gwersi yn canolbwyntio arnynt ddigon bob amser. Mae athrawon yn annog disgyblion i osod eu targedau eu hunain ac asesu eu cynnydd eu hunain a gwaith disgyblion eraill. Mae hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar eu dealltwriaeth o'r cam nesaf yn eu dysgu. Mae athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn gyson ac yn rhoi gwybod i ddisgyblion yn briodol am yr hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella. Fodd bynnag, ni roddir digon o gyfleoedd i ddisgyblion ailddrafftio a gwella eu gwaith ysgrifenedig.

Mae adroddiadau i rieni yn llawn gwybodaeth, ac fe gaiff rhieni gyfleoedd da i drafod cynnydd eu plentyn.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned hapus a gofalgar lle mae oedolion a disgyblion yn dangos parch at ei gilydd. Mae bron pob un o'r disgyblion yn hyderus i fynd at staff i gael arweiniad ac yn teimlo bod yr ysgol yn delio'n effeithiol â bwlio. Mae polisïau a gweithdrefnau effeithiol ar waith i hyrwyddo byw yn iach a lles disgyblion trwy waith dosbarth ac ystod o weithgareddau allgyrsiol.

Mae'r ystod gynhwysfawr o brofiadau a chyfleoedd dysgu a ddarperir gan yr ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol pob disgybl yn llwyddiannus.

Mae'r ysgol yn gweithio'n dda gydag ystod eang o wasanaethau arbenigol, ac yn rhoi cymorth effeithiol i ddisgyblion a rhieni.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau a pholisi priodol ar gyfer diogelu.

Mae'r ddarpariaeth i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn cynnwys nodweddion da iawn. Mae nodi anghenion ychwanegol yn gynnar yn sicrhau bod pob disgybl yn cael cymorth addas ar draws yr ysgol. Caiff cynlluniau addysg unigol eu hadolygu'n rheolaidd gyda rhieni.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol a gofalgar lle caiff pob disgybl ei werthfawrogi a'i drin yn gyfartal. Rhoddir pwyslais clir ar gydnabod a dathlu cyflawniadau pob plentyn. Mae ystod lawn darpariaeth yr ysgol ar gael i bob disgybl.

Mae adeilad yr ysgol yn newydd a safon y safle'n uchel iawn. Caiff ei hadeiladau a'i thir eu cynnal yn dda iawn. Mae'r tu mewn yn cynnwys arddangosiadau lliwgar sy'n dathlu gwaith disgyblion ac yn creu amgylchedd dysgu ysgogol. Mae staff yn defnyddio'r mannau tu allan yn effeithiol i wella ac ymestyn profiadau dysgu'r disgyblion. Mae cyflenwad da o adnoddau addas ym mhob dosbarth, y gall disgyblion eu defnyddio'n hawdd.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol iawn ar yr ysgol. Mae ganddi weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol, sy'n cael ei rhannu gan y corff llywodraethol, yr uwch dîm rheoli a phob un o'r staff. Mae synnwyr cryf o waith tîm ymhlith pob aelod o staff.

Mae cyfarfodydd rheolaidd y staff a'r tîm arweinyddiaeth yn canolbwyntio'n dda ar faterion i wella'r ysgol. Mae strwythur rheoli clir ac mae rolau a chyfrifoldebau staff wedi'u diffinio'n dda. Mae trefniadau rheoli perfformiad yn canolbwyntio'n effeithiol ar flaenoriaethau datblygu'r ysgol ac yn arwain at ddatblygiad proffesiynol gwerthfawr i athrawon.

Mae'r corff llywodraethol yn rhoi cefnogaeth gref i'r ysgol ac mae'n wybodus am berfformiad cyffredinol y disgyblion. Mae ganddo rôl weithredol mewn hunanarfarnu a chynllunio datblygiad yr ysgol ac mae ei rheolaeth ariannol ar yr ysgol yn effeithiol. Mae llywodraethwyr yn cynnig her briodol ac yn dwyn arweinwyr a rheolwyr i gyfrif lle bo'n berthnasol. Maent yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd i drafod eu meysydd cyfrifoldeb, sy'n cynnwys cymryd rhan yng nghymuned ddysgu broffesiynol yr ysgol ar gyfer darllen.

Mae'r ysgol yn rhoi ystyriaeth dda i flaenoriaethau cenedlaethol, fel hyrwyddo dwyieithrwydd disgyblion, y Cyfnod Sylfaen a mynd i'r afael â thangyflawniad ymhlith bechgyn. Mae asesu ar gyfer dysgu yn datblygu'n dda.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r broses hunanarfarnu wedi ennill ei phlwyf yn dda ac yn ymgorffori tystiolaeth o ystod eang o ffynonellau. Mae'r rhain yn cynnwys dadansoddi data, arsylwadau gwersi rheolaidd, craffu ar gynllunio a gwaith disgyblion, a gwrando ar ddysgwyr a rhieni. Mae llywodraethwyr yn llunio adroddiadau effeithiol ar eu meysydd cyfrifoldeb. Mae rôl y pennaeth a'r uwch dîm rheoli yn effeithiol wrth hyrwyddo ethos lle mae staff yn barod iawn i arfarnu eu perfformiad eu hunain.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn fanwl ac yn rhoi trosolwg cywir o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella. Mae canfyddiadau'r hunanarfarnu yn bwydo'n effeithiol i gynllun datblygu'r ysgol, sy'n ddogfen fanwl ac yn canolbwyntio'n dda ar ddeilliannau disgyblion. Mae'n cynnwys targedau perthnasol a meini prawf llwyddo ac yn dyrannu cyfrifoldebau a chyllid ar gyfer ei roi ar waith yn effeithiol.

Mae dwy gymuned ddysgu broffesiynol fewnol ar waith, mewn perthynas â gwella darllen bechgyn a hyrwyddo gwelliannau mewn rhifedd. Mae'r gymuned ddarllen yn cynnwys cynrychiolwyr o bob un o'r staff a'r llywodraethwyr, ac mae eisoes wedi gwella medrau darllen disgyblion targedig. Mae cynorthwywyr ystafell ddosbarth yn weithgar ac effeithiol iawn yn y gwaith hwn hefyd.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn gweithio'n dda gydag ystod eang o bartneriaid ac mae hyn yn cyfrannu'n dda tuag at ddysgu a lles da.

Mae'r cyfathrebu rhwng y cartref a'r ysgol yn effeithiol iawn, ac mae rhieni'n teimlo eu bod yn cael gwybodaeth dda am fywyd yr ysgol a chynnydd eu plentyn. Mae llyfrynnau gwybodaeth a sesiynau gweithdy yn rhoi gwybodaeth werthfawr i rieni am sut i helpu eu plentyn gyda darllen a rhifedd ac ar baratoi plant ar gyfer yr ysgol. Mae rhieni'n gefnogol iawn i'r ysgol ac yn aml yn cyfrannu at brofiadau dysgu disgyblion trwy ymweld â'r ysgol a rhannu profiadau galwedigaethol.

Mae ansawdd cysylltiadau'r ysgol â'r gymuned yn dda iawn. Defnyddir y cysylltiadau hyn yn effeithiol fel adnodd i ddatblygu gwybodaeth a medrau disgyblion. Caiff aelodau o'r gymuned eu gwahodd i'r ysgol yn rheolaidd i weithio gyda disgyblion ar agweddau ar waith testun.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau cryf gyda'r Cylch Meithrin sy'n ei bwydo a gydag ysgolion uwchradd, sy'n sicrhau bod disgyblion yn trosglwyddo'n ddidrafferth. Mae ganddi gysylltiadau da gydag ysgolion cynradd eraill, yn enwedig mewn gweithgareddau safoni, i sicrhau cysondeb mewn asesu.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan yr ysgol nifer ddigonol o staff sydd â chymwysterau addas i addysgu'r cwricwlwm yn effeithiol a nifer briodol o gynorthwywyr cymorth ystafell ddosbarth. Mae offer ac adnoddau da iawn yn yr ysgol.

Mae staff a disgyblion yn defnyddio'r adnoddau sydd ar gael yn dda ac yn gwneud defnydd da o adeiladau a thir yr ysgol. Mae athrawon a staff cymorth yn gweithio gyda'i gilydd yn dda fel tîm. Caiff pob un ohonynt gyfleoedd da ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus.

Mae prosesau clir ac effeithiol ar gyfer rheolaeth ariannol yn eu lle, gyda chydbwysedd priodol rhwng cyfrifoldebau llywodraethwyr a'r rhai a ddirprwyir i'r pennaeth a'r staff. Mae disgyblion yn cyflawni safonau da ar y cyfan. Mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Ar y cyfan, mae perfformiad disgyblion yng nghyfnod allweddol 1 ar y lefel ddisgwyliedig (lefel 2) yn cymharu'n dda â pherfformiad y teulu o ysgolion yn yr un band prydau ysgol am ddim. Yn 2010-2011, roedd perfformiad disgyblion yn cyd-fynd â'r cyfartaledd ar gyfer y teulu mewn mathemateg a gwyddoniaeth ond yn is mewn Saesneg. Mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni'r dangosydd pwnc craidd wedi bod uwchlaw cyfartaledd y teulu o ysgolion, tan 2011 pan ostyngodd.

O gymharu â chanlyniadau yn nheulu'r ysgol, yng nghyfnod allweddol 1, roedd perfformiad disgyblion yn y dangosydd pwnc craidd yn y 50% is yn 2009 a'r 50% uwch yn 2010, ond disgynnodd i'r 25% isaf yn 2011. Mewn Saesneg, mae perfformiad disgyblion wedi bod yn y 50% is am dair blynedd. Roedd perfformiad mewn mathemateg yn y 50% uwch yn 2009 ond bu yn y 50% is am y ddwy flynedd ddiwethaf. Roedd perfformiad disgyblion mewn gwyddoniaeth ar y lefel ddisgwyliedig yn y 25% uchaf yn 2009, y 25% isaf yn 2010 a'r 50% is yn 2011.

Bu perfformiad ar y lefel uwch na'r disgwyl (lefel 3) yng nghyfnod allweddol 1 yn amrywiol, gyda disgyblion yn gyffredinol yn perfformio'n well mewn Saesneg a gwyddoniaeth na mewn mathemateg. O gymharu â chanlyniadau ysgolion yn yr un teulu, roedd perfformiad mewn Saesneg a gwyddoniaeth yn y 50% is yn 2011 ac yn y 25% isaf mewn mathemateg.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae perfformiad disgyblion ar y lefel ddisgwyliedig (lefel 4) wedi bod yn debyg i'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion am y tair blynedd diwethaf yn gyffredinol. Yn 2010-2011, roedd perfformiad disgyblion ar y lefel ddisgwyliedig (lefel 4) yn uwch na chyfartaledd y teulu yn y dangos pwnc craidd a Saesneg ac yn agos at y cyfartaledd mewn mathemateg a gwyddoniaeth. Roedd perfformiad ar y lefel uwch (lefel 5) yn is ym mhob pwnc.

O gymharu â chanlyniadau ysgolion eraill yn yr un teulu, amrywiol fu perfformiad mewn Saesneg yn y dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2, gyda pherfformiad disgyblion yn y 25% uchaf, y 25% isaf a'r 50% is dros y tair blynedd diwethaf. Mae perfformiad disgyblion mewn Cymraeg mamiaith wedi bod yn gyson dda a pherfformiad mewn Cymraeg fel ail iaith wedi bod yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol am y ddwy flynedd ddiwethaf. O gymharu â chanlyniadau ysgolion eraill yn yr un teulu, roedd perfformiad mewn mathemateg yn y 50% uwch yn 2009 ond bu yn y 50% is am y ddwy flynedd ddiwethaf. Mewn gwyddoniaeth, roedd perfformiad yn y 25% uchaf yn 2009 a'r 50% is yn 2010, gan ostwng i'r 25% isaf yn 2011.

Mae perfformiad ar y lefel uwch (lefel 5) yng nghyfnod allweddol 2 wedi cymharu'n dda â pherfformiad y teulu ym mhob un o'r tri phwnc dros y tair blynedd diwethaf ar y cyfan tan 2011, gyda disgyblion yn perfformio'n well mewn Saesneg a gwyddoniaeth na mewn mathemateg. Roedd perfformiad disgyblion yn 2011 yn y 25% isaf ar gyfer Saesneg a mathemateg, a'r 50% is ar gyfer gwyddoniaeth.

Mae disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn perfformio'n dda ar y cyfan o gymharu â disgyblion eraill tebyg yn y teulu, yr awdurdod lleol a Chymru.

Yng nghyfnod allweddol 1, mae merched yn perfformio'n well na bechgyn yn gyson ym mhob pwnc, heblaw mathemateg ar y lefel uwch (lefel 3). Mae'r gwahaniaeth mewn perfformiad fel arfer wedi bod yn debyg i'r bwlch cyfartalog ar gyfer y teulu, tan 2011 pan oedd y bylchau ar gyfer ysgrifennu a llafaredd yn arbennig yn fwy.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae merched yn perfformio'n well na bechgyn ym mhob pwnc ac eithrio gwyddoniaeth ar y lefel uwch (lefel 5). Mae'r gwahaniaethau mewn perfformiad mewn llafaredd, darllen, mathemateg a gwyddoniaeth yn fwy na'r bwlch cyfartalog mewn perfformiad ar gyfer y teulu, gyda'r bwlch ar gyfer ysgrifennu gryn dipyn yn fwy.

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

Llenwodd saith deg dau o ddisgyblion yr holiaduron i ddysgwyr. Mae eu hymatebion yn fwy cadarnhaol nag ymatebion disgyblion eraill yng Nghymru.

Mae pob un o'r disgyblion:

- yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol;
- yn gwybod gyda phwy i siarad os ydynt yn poeni neu'n gofidio;
- yn teimlo bod athrawon ac oedolion eraill yn yr ysgol yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd;
- yn gwybod beth i'w wneud ac i bwy i ofyn os ydynt yn cael gwaith yn anodd;
- yn credu bod ganddynt ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud eu gwaith; ac
- yn dweud eu bod yn cael digonedd o gyfleoedd i wneud ymarfer corff yn rheolaidd.

Mae bron pob un o'r disgyblion:

- yn teimlo bod yr ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio;
- yn dweud bod yr ysgol yn eu haddysgu ynglŷn â sut i gadw'n iach;
- yn teimlo eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol;
- yn dweud bod eu plant yn ymddwyn a'u bod yn gallu bwrw ymlaen â'u gwaith yn y dosbarth; ac
- yn dweud bod bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio.

Cafwyd pedwar deg dau o ymatebion i'r holiadur i rieni. Roedd eu hymatebion yn cyd-fynd yn fras ag ymatebion rhieni eraill yng Nghymru, neu roeddent yn fwy cadarnhaol.

Mae pawb a ymatebodd yn cytuno:

- bod yr addysgu'n dda;
- bod staff yn disgwyl i'w plentyn weithio'n galed a gwneud ei (g)orau;
- bod eu plentyn yn ddiogel yn yr ysgol;
- bod yr ysgol yn helpu eu plentyn i ddod yn fwy aeddfed a chymryd cyfrifoldeb; a
- bod eu plentyn wedi cael ei baratoi/pharatoi'n dda ar gyfer symud i'r ysgol nesaf.

Mae bron pawb a ymatebodd yn fodlon â'r ysgol ac yn teimlo'i bod yn cael ei rhedeg yn dda. Maent hefyd yn teimlo bod disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol a bod staff yn trin plant yn deg ac yn eu parchu. Dywedant fod eu plentyn yn hoffi'r ysgol ac y cafodd gymorth i ymgynefino'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. Maent yn credu bod eu plentyn yn gwneud cynnydd da a'i fod/bod yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. Maent hefyd yn credu bod y gwaith cartref a roddir yn adeiladu'n dda ar yr hyn y mae eu plentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. Maent yn gyfforddus i fynd at yr ysgol gydag awgrymiadau, cwestiynau neu broblemau.

Mae llawer o rieni'n teimlo eu bod yn cael gwybodaeth dda am gynnydd eu plentyn ac yn dweud bod yr ysgol yn darparu ystod dda o weithgareddau a gwibdeithiau. Mae llawer ohonynt hefyd yn teimlo bod eu plentyn yn cael ei (h)annog i fod yn iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd.

Dywed y rhan fwyaf o rieni eu bod yn deall gweithdrefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Stella Gruffydd | Arolygydd Cofnodol |
| Gareth Wyn Jones | Arolygydd Tîm |
| Veronica Williams | Arolygydd Lleyg |
| Luisa Munro-Morris | Arolygydd Cymheiriaid |
| Jayne Evans (Pennaeth) | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i’r ysgol ddarparu copïau o’r adroddiad i holl rieni’r ysgol. Lle mae disgybl yn cael ei leoli yno gan awdurdod lleol, dylai’r ysgol anfon copi o’r adroddiad at bob awdurdod perthnasol.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae’r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae’r term ‘Derbyn’ (CSD) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy’n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae CS Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy’n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw’r grŵp o fyfyrwyr sy’n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | CSD | CSB1 | CSB2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae’r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu’r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

# Rhestr termau – Cynradd

## Cwricwlwm Cenedlaethol

### Lefelau disgwyliedig y Cwricwlwm Cenedlaethol

- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 1, yn saith oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 2 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 3.
- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 5.

### Y dangosydd pwnc craidd ym mhob cyfnod allweddol

Mae'r dangosydd pwnc craidd yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. Rhaid i ddysgwyr gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf ynghyd â mathemateg a gwyddoniaeth er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

### Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.